# PAPURAU BUSNES

## Rhan 1 - Adran F

### Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'w hateb ar 15 Medi 1999

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Cwestiynau a gyflwynwyd ar 8 Medi 1999

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Lywodraeth Leol a'r Amgylchedd

**1. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** I gydnabod yr angen brys i wella cysylltiadau ffordd rhwng y de a'r gogledd, a fydd yn cefnogi cynigion i ddelio â hyn trwy roi arian ychwanegol i'r diben hwn yng nghyllideb y flwyddyn nesaf. (OAQ840JS) [w]

**2. Pauline Jarman (Canol De Cymru);** A yw am wneud datganiad ar addasrwydd y ddeddfwriaeth gyfredol ar reoliadau niwsans statudol mewn perthynas â safleoedd tirlenwi. (OAQ852VB)

**3. Lynne Neagle (Tor-faen);** A wnaiff Ysgrifennydd y Cynulliad roi'r newyddion diweddaraf ar adolygiad Cynllun Rheoli Gwastraff y DU ar Fewnforio ac Allforio Gwastraff. (OAQ846VB)

**4. Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw am wneud datganiad yngln â phrojectau trafnidiaeth mawr a phrojectau seilwaith eraill y mae'n gobeithio'u cefnogi â chyllid o Ewrop o'r flwyddyn 2000 ymlaen. (OAQ833JS)

**5. Carwyn Jones (Pen-y-bont);** Pa gynlluniau sydd ganddo i helpu cynghorau lleol i ostwng nifer y tai cyngor yng Nghymru ag arnynt angen eu hatgyweirio. (OAQ830JS)

**6. Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw'n bwriadu gweithredu i ddatrys llygredd mewn llywodraeth leol yng Nghymru. (OAQ832JS)

**7. Jane Davidson (Pontypridd);** A yw am gyhoeddi'r amserlen i'w defnyddio i benderfynu ar geisiadau dan Gynigion Grant Trafnidiaeth 2000/2001. (OAQ842JS)

**8. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** A oes ganddo unrhyw gynlluniau i sefydlu Safle Monitro Awtomatig ar gyfer llygredd aer yng Ngogledd Cymru. (OAQ828JS)

**9. Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** A oes ganddo unrhyw gynlluniau i weithredu polisïau i gynorthwyo wrth wella cysylltiadau trafnidiaeth rhwng Cymru a gweddill y DU. (OAQ859JS)

**10. Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni);** A all Ysgrifennydd y Cynulliad roi'r newyddion diweddaraf ar gynnydd cydweithio rhwng ei swyddfa ac Asiantaeth yr Amgylchedd ar ddarpariaethau diogelu rhag llifogydd yn ardal Aberfan. (OAQ844VB)

**11. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa gynigion penodol sy'n cael eu hystyried fel rhan o'r arolwg i fformwla ariannu Llywodraeth Leol trwy Grant Cynnal Refeniw er mwyn lleihau'r effaith gerio ar godiadau Treth Cyngor. (OAQ834JS)

**12. Brian Gibbons (Aberafan);** Pa flaenoriaeth a roddir ganddo i gais Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot am gefnogaeth grant trafnidiaeth i adeiladu Ffordd Ddosbarthu Ymylol (PDR) ym Mhort Talbot. (OAQ837VB)

**13. Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** A yw wedi cymryd camau, neu a yw'n bwriadu cymryd camau, i sicrhau bod data ar gyfer Dangosyddion Perfformiad Awdurdodau Lleol yn cael eu casglu trwy ddulliau cadarn a thryloyw. (OAQ839JS)

**14. Geraint Davies (Rhondda);** A yw am wneud datganiad ar y rhai yr ymgynghorir â hwy wrth ddatblygu strategaeth gwastraff Cymru. (OAQ860JS)

**15. Brian Gibbons (Aberafan);** A oes ganddo unrhyw gynlluniau i ostwng nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau yn ymwneud â thai yng Nghymru. (OAQ838VB)

**16. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A yw am ystyried adolygu’r camau a gymerwyd gan awdurdodau lleol Cymru i fynd i’r afael â’r broblem o 'Japanese Knot Weed' gan lunio strategaeth i Gymru-gyfan a nodi’r dewisiadau cyllido. (OAQ835JS)

**17. Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Pryd y disgwylir canlyniad yr ymchwiliad cyhoeddus i’r cais cynllunio am losgydd gwastraff ysbyty ar Ynys Môn. (OAQ843JS)

**18. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** A yw am roi’r cynlluniau i sefydlu ymchwiliad cyhoeddus gerbron y Cynulliad o ran rheoli safle tirlenwi Nant y Gwyddon. (OAQ857JS)

**19. Phil Williams (Dwyrain De Cymru);** A yw am roi adroddiad o sefyllfa bresennol y negodiadau â Llywodraeth Leol yng Nghymru wrth baratoi olynydd i’r drefn bresennol ar gyfer Asesiad Gwario Safonol Gwariant Awdurdodau Lleol ac a yw am roi amcangyfrifiad o ddyddiad cyflwyno’r cynigion newydd gerbron y Cynulliad. (OAQ850JS)

**20. Dr Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** A yw’n bwriadu cynnal arolwg strategol o reoli gwastraff yng Nghymru. (OAQ847VB)

**21. Brian Hancock (Islwyn);** A yw’n bwriadu cyhoeddi canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol yngln â gweithredu’r Ddeddf Leihau Gwastraff. (OAQ855VB) [R]

**22. Geraint Davies (Rhondda);** Pryd y caniateir i awdurdodau lleol sy’n gweithredu Cwmnïau Gwaredu Gwastraff ar hyn o bryd reoli gwaredu gwastraff yn uniongyrchol. (OAQ858JS) [R]

**23. Alison Halford (Delyn);** A yw am gymryd camau i leihau lefel y llygredd a achosir ar hyn o bryd gan ollyngiadau cerbydau rhai o Gwmnïau Bysus Cymru. (OAQ836JS)

**24. Gareth Jones (Conwy);** A yw’n bwriadu ymweld â safle Tirlenwi Nant y Gwyddon. (OAQ845VB)

**25. Brian Hancock (Islwyn);** Pa gamau a gymerwyd ganddo i gyflwyno rheolau i atal defnyddio shot plwm. (OAQ856VB)

**26. David Davies (Trefynwy);** Faint a wariwyd ar yr ymchwiliad cyhoeddus i ffordd Blaenau’r Cymoedd. (OAQ841JS)

**27. Pauline Jarman (Canol De Cymru);** A yw am wneud datganiad ar gynnydd datblygiad strategaeth gwastraff i Gymru. (OAQ851VB)

**28. Dr Dai Lloyd (Dwyrain De Cymru);** Pa drefniadau sydd ganddo ar y gweill i sicrhau bod y gwaith o lunio cynllun datblygu cynaliadwy yn rhoi ystyriaeth i faterion sy’n ymwneud â safleoedd tirlenwi. (OAQ854VB)

**29. Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth mae'n bwriadu ei wneud o ran paratoi fframwaith cynllunio cenedlaethol newydd. (OAQ831JS) [w]

**30. David Davies (Trefynwy);** A yw'n bolisi ganddo i godi taliadau dr a fydd yn gwahaniaethu yn ôl amgylchiadau ariannol y defnyddwyr. (OAQ829JS)